# Datganiad hygyrchedd ar gyfer y llwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB (FSA LINK)

Mae’r datganiad hygyrchedd hwn yn berthnasol i wefan Rhwydwaith Rhannu'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA LINK).

Mae’r datganiad hygyrchedd hwn yn berthnasol i wefan Rhwydwaith Rhannu'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA LINK).

Mae’r wefan hon yn cael ei chynnal gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Rydym yn  awyddus i gynifer o bobl â phosib allu defnyddio’r wefan hon. Er enghraifft, mae hynny’n golygu y dylech chi allu gwneud y canlynol:

- newid lliwiau, lefelau cyferbyniad a ffontiau o fewn gosodiadau eich porwr eich hun
- chwyddo hyd at 300% heb i’r testun ddisgyn oddi ar y sgrin
- llywio trwy’r rhan fwyaf o’r wefan gan ddefnyddio bysellfwrdd yn unig
- llywio trwy’r rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio meddalwedd adnabod lleferydd
- gwrando ar y rhan fwyaf o'r wefan gan ddefnyddio darllenydd sgrin (gan gynnwys y fersiynau diweddaraf o JAWS, NVDA TalkBack a VoiceOver)

Rydym hefyd wedi gwneud testun y wefan mor syml â phosibl i’w ddeall.

Mae gan AbilityNet gyngor ar wneud eich dyfais yn haws i’w defnyddio os oes gennych chi anabledd.

## Pa mor hygyrch yw’r wefan hon?

Rydym yn gwybod nad yw rhai rhannau o’r wefan hon yn gwbl hygyrch. Gallwch chi weld rhestr lawn o unrhyw broblemau yn adran ‘Cynnwys nad yw’n hygyrch’ y datganiad hwn.

## Adborth a manylion cyswllt

Os oes angen gwybodaeth arnoch chi am y wefan hon mewn fformat gwahanol fel PDF hygyrch, print bras, fersiwn hawdd ei darllen, recordiad sain neu braille:

- Anfonwch e-bost i: FSALINK@food.gov.uk
- Ffoniwch ein Llinell Gymorth: 0330 332 7149 (ar agor 9am tan 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener)

Darllenwch gyngor ar gysylltu â sefydliadau am wefannau anhygyrch.

## Rhoi gwybod am broblemau hygyrchedd gyda’r wefan hon

Rydym bob amser yn ceisio gwella hygyrchedd y wefan hon. Os byddwch yn dod o hyd i unrhyw broblemau nad ydynt wedi’u rhestru ar y dudalen hon, neu os ydych chi o’r farn nad ydym yn bodloni gofynion hygyrchedd, gallwch chi:

- Anfon e-bost i:?fsa.communications@food.gov.uk
- Ffonio ein llinell gymorth 0330 332 7149 (ar agor 9am tan 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener)

[Darllenwch gyngor ar gysylltu â sefydliadau am wefannau anhygyrch.](#)

# Gweithdrefn orfodi

Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y ‘rheoliadau hygyrchedd’). Os nad ydych chi'n hapus â’r ffordd rydym yn ymateb i’ch cwyn, cysylltwch â’r Gwasanaeth Cynghori a Chefnogi Cydraddoldeb (EASS).

Os ydych chi yng Ngogledd Iwerddon ac nad ydych chi’n hapus â’r ffordd rydym wedi ymateb i’ch cwyn, gallwch chi gysylltu â Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 ( y ‘rheoliadau hygyrchedd’) yng Ngogledd Iwerddon.

# Gwybodaeth dechnegol am hygyrchedd y wefan hon

Mae’r ASB wedi ymrwymo i wneud ei gwefan yn hygyrch, yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018.

## Statws cydymffurfio

Mae’r wefan hon yn cydymffurfio'n rhannol â safon AA fersiwn 2.1 o’r Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe.

# Cynnwys nad yw’n hygyrch

Mae’r cynnwys a restrir isod yn anhygyrch am y rhesymau canlynol.

## Ddim yn cydymffurfio â’r rheoliadau hygyrchedd

**Llywio**

- Nid yw trin gwallau yn gweithio’n ddigonol i bob defnyddiwr. Wrth ddewis blwch ticio a cheisio parhau heb lenwi pob maes, nid oes modd cyflwyno’r dudalen ac mae’r gwall yn cael ei ddarllen i ddefnyddwyr darllenwyr sgrin. Fodd bynnag, nid yw’r neges wall yn aros ar y sgrin (WCAG 3.3.1 Adnabod gwall)Nid yw’r ffocws bysellfwrdd (keyboard focus) yn teithio yn y drefn ddisgwyliedig pan fydd y blwch ‘dywedwch wrthym beth yw eich barn am ein gwefan’ yn ymddangos. Mae angen i ddefnyddwyr lywio i ddiwedd y dudalen er mwyn cyrraedd diwedd y dudalen. (WCAG A 2.4.3 Trefn Ffocws)
- Nid yw defnyddwyr bysellfwrdd yn gallu cael mynediad at gynnwys y gellir ei sgrolio. Nid yw’r rhan y mae modd ei sgrolio ar ran 2 y dudalen sy’n cynnwys ‘hysbysiad preifatrwydd’ yn hygyrch trwy’r bysellfwrdd. (WCAG 2.4.7 AA Ffocws gweladwy)
- Nid yw ffocws bysellfwrdd yn gweithio ar eitemau’r dewislen. (WCAG 4.1.2 A Enw, rôl, gwerth a WCAG 2.1.1 Ffocws Bysellfwrdd)
- Mae defnyddwyr bysellfwrdd yn gallu cael mynediad at y moddol ond unwaith y maent wedi cychwyn, maent yn aros yn y moddol. Nid yw’r botwm ‘cau’ yn cael ffocws (WCAG 2.1.2 A, Trap Bysellfwrdd).

**Dolenni**

- Mae defnyddwyr yn gallu llywio i’r botymau lawrlwytho a chychwyn lawrlwythiad ond nid oes modd gweld yr eicon i ddangos bod lawrlwytho wrthi’n digwydd oni bai bod y

defnyddwyr yn hofran y llygoden. Efallai na fydd y rheiny sy’n defnyddio bysellfwrdd yn unig yn sylweddoli bod opsiwn lawrlwytho. (WCAG 2.4.4 A Pwrpas Dolen (Mewn Cyd-destun))
- Mae'r dolenni ‘Rhagor o wybodaeth’ oll yn cynnwys gwerthoedd ID Dyblyg. Gall hyn achosi problemau i dechnoleg gynorthwyol. (WCAG 4.1.1A Dosrannu)
- Mae’r botwm ‘Ysgrifennwch neges i’w thrafod’ ar gael i ddefnyddwyr bysellfwrdd ond nid oes ganddo label cysylltiedig. Mae hyn yn achosi iddo fod ‘heb ei labelu’ ar gyfer defnyddwyr darllenwyr sgrin. (WCAG 2.4.4 A Pwrpas Dolen (Mewn Cyd-destun)).

### Elfennau Ffurf

- Mae elfennau ffurf heb label sy’n gysylltiedig â rhaglenni yn bresennol. Nid oes gan yr elfen <select> label penodol, a gallai hyn ddrysu defnyddwyr darllenwyr sgrin (WCAG 1.3.1 A Gwybodaeth a Pherthnasoedd)
- Nid yw’r briodwedd awto-gwblhau wedi’i chymhwyso i feysydd y ffurflen sy’n gofyn am ddata defnyddwyr cyffredin fel Enw ac E-bost (WCAG 1.3.5 AA Adnabod Pwrpas Mewnbwn)

### Penawdau

- Mae lefel y penawdau yn ymddangos mewn trefn ond nid oes pennawd lefel 1 i gyflwyno'r prif gynnwys. Mae’r broblem hon yn bresennol ar draws y wefan (WCAG 1.3.1 A Gwybodaeth a Pherthynas a 2.4.6 AA Penawdau a Labeli)
- Mae rhai penawdau gwag yng nghynnwys y Telerau Gwasanaeth a allai fod yn ddryslyd i ddefnyddwyr darllenydd sgrin (WCAG 2.4.6 AA Penawdau a Labeli)
- Mae gan rai botymau lawrlwytho’r label ARIA priodol ond nid yw hyn yn ddigon disgrifiadol i egluro’r ffeil y mae’r defnyddiwr yn ei lawrlwytho. Dylai’r label roi teitl y ddogfen lawn a’r math o ffeil (WCAG 2.4.6 AA Penawdau a Labeli)

### Cynnwys

- Pan fydd rhestrau o ffeiliau yn cael eu harddangos, mae nifer yr eitemau mewn rhestr yn cael eu cyhoeddi ond mae’r marciau ar y rhestr ddiffiniadau yn anghywir. (WCAG 1.3.1 A Gwybodaeth a Pherthnasoedd)
- Gall cynnwys gael ei golli neu ei guddio pan fydd y porwr wedi chwyddo i 300% a lled 1280px. Mae eitemau’r ddewislen yn ymddangos oddi ar y sgrin ac yn anhygyrch. (WCAG AA 1.4.10 Ail-lifo)
- Nid yw’r cyfuniadau lliw gwyrdd golau a gwyn ar draws y wefan, y botwm ‘mewngofnodi’, y testun gwyrdd golau ar gyfer y ddewislen llywio ochr, y testun llwyd golau ar negeseuon cymunedol a thestun cymorth y ffurflen yn bodloni cymhareb cyferbyniad lliw lleiaf o 4:5:1 yn erbyn lliwiau cyfagos, na chwaith y botymau postio cyntaf a diwethaf a’r testun oren ar gefndir gwyn (WCAG 1.4.3 cyferbyniad AA (lleiafswm)
- Nid yw lliw cefndir y blwch ‘Telerau Gwasanaeth’ a botymau fel ‘Hysbysiadau’ a ‘Cyfrifon’ yn bodloni’r gofyniad lleiafswm cyferbyniad lliw. (WCAG 1.4.11 AA Cyferbyniad di-destun)
- Nid yw statws gwall wrth lenwi’r ffurflen gwybodaeth bersonol yn cael ei gyhoeddi i ddefnyddwyr darllenwyr sgrin, gyda’r ffocws yn parhau ar y botwm cyflwyno (WCAG AA 4.1.3 Negeseuon Statws)
- Nid yw rhywfaint o’n cynnwys PDF yn hygyrch ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar ôl-groniad ac yn trwsio problemau a nodwyd yn nhrefn blaenoriaeth. (WCAG 2.1 A 1.2.1 Gwybodaeth a Pherthnasoedd ac WCAG 4.1.2 A Enw, Rôl, Gwerth)
- Nid oes gan y ffrâm a ddefnyddir i arddangos dogfennau nad ydynt yn rhai html briodoledd teitl felly ni fyddai defnyddwyr darllenwyr sgrin yn gallu pennu cynnwys y ffrâm ac ni fydd modd iddynt ddefnyddio’r ffrâm fel offeryn llywio. (WCAG 2.4.1 A Blociau Osgoi ac WCAG

4.1.2 A Enw, Rôl, Gwerth)
- Nid yw cynnwys trydydd parti a rennir er budd awdurdodau gorfodi wedi'i gynhyrchu gan yr ASB ac efallai na fydd bob amser yn hygyrch.

## Baich anghymesur

Nid ydym yn hawlio unrhyw honiadau baich anghymesur.

### Cynnwys nad yw o fewn cwmpas y rheoliadau hygyrchedd

#### Dogfennau PDF a dogfennau eraill

Nid yw'r rheoliadau hygyrchedd yn ei gwneud yn ofynnol i ni drwsio ffeiliau PDF neu ddogfennau eraill a gyhoeddwyd cyn 23 Medi 2018 os nad ydyn nhw'n hanfodol i ddarparu ein gwasanaethau.

Bydd unrhyw ddogfennau PDF neu Word newydd a gyhoeddwn yn bodloni safonau hygyrchedd.

## Ein gwaith i wella hygyrchedd

Dyma sut rydym yn mynd ati i ddatrys y materion a nodir uchod:

- Ein nod yw trwsio'r rhai o'r materion o ran ymarferoldeb y wefan a chynnwys erbyn mis Medi 2025.

## Paratoi'r datganiad hygyrchedd hwn

Paratowyd y datganiad hwn ar 27 Medi 2024. Fe'i hadolygwyd ddiwethaf ar 27 Medi 2024.